Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Ysgoloriaethau MSc Rheoli Uwch (Rheoli a Thrawsnewid Iechyd)**

## CYMHWYSEDD, PROSES DDYFARNU, AMODAU A THELERAU A FFURFLEN GAIS PRIFYSGOL ABERTAWE

**Academïau Dysgu Dwys, Polisi Dyrannu Ysgoloriaethau**

### 1. DIBEN Y DYFARNIADAU

Mae Llywodraeth Cymru'n dymuno cefnogi dysgwyr proffesiynol yn y GIG, yn y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yng Nghymru i ymgymryd ag addysg a datblygiad personol mewn meysydd polisi allweddol a sefydlwyd rhaglen Academïau at y diben hwn. Mae cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn galluogi pob Academi i gynnig nifer cyfyngedig o ysgoloriaethau hael i ymgeiswyr cymwys.

Mae sawl ysgoloriaeth ar gael ar y llwybrau MSc Rheoli Uwch (Arloesi a Thrawsnewid Iechyd). Mae nifer cyfyngedig o leoedd wedi'u hariannu'n rhannol ar gael, a chaiff y rhain eu dyrannu yn unol â'r meini prawf isod.

Mae cyllid ar gael i ategu ymchwil PhD hefyd.
Os hoffech chi drafod eich cais am le wedi'i ariannu'n rhannol, cysylltwch â Chyfarwyddwr y Rhaglen, Dr Roderick Thomas.

### 2. Y BROSES YMGEISIO

i. Mae myfyrwyr yn dilyn proses safonol Prifysgol Abertawe i ymgeisio am le ar raglen MSc.

ii. Gall ymgeiswyr gyflwyno cais am le wedi'i ariannu'n rhannol gyda'u cais am le ar y rhaglen, ond ni chaiff ceisiadau am y lleoedd wedi'u hariannu'n rhannol eu hystyried nes y ceir penderfyniad bod yr ymgeisydd yn gymwys am le ar y rhaglen

iii. Mae angen i fyfyrwyr lenwi'r ffurflen gais isod gan gynnwys y datganiad o gefnogaeth gan eu cyflogwr. Anfonwch gopi o'r ffurflen hon i IHSCAcademy@abertawe.ac.uk. Gall methu gwneud hyn olygu na fydd eich cais yn cael ei ystyried.

iv. Penderfynir ar ddyfarnu Ysgoloriaethau gan y Panel Dyfarnu Lleoedd a Ariennir, a rhoir gwybod i ymgeiswyr. Caiff y rhai hynny sy'n aflwyddiannus yn eu ceisiadau am ddyfarniadau ysgoloriaethau gymryd lle fel dysgwyr sy'n hunan-ariannu os dymunant wneud hynny.

v. Rhaid cyflwyno ceisiadau am yr ysgoloriaethau erbyn **dydd Llun 4 Mawrth 2024 am 4pm** fan hwyraf. Rhoir gwybod i ymgeiswyr am benderfyniad y panel ymhen 3 wythnos ar ôl y dyddiad hwn.

vi. Ni chaiff cyllid yr ysgoloriaeth ei dalu i ymgeiswyr, ond cânt eu hysbysu wrth gofrestru fod eu ffioedd wedi'u talu.

## 3. Y BROSES DYFARNU YSGOLORIAETHAU

i. Dyfernir ysgoloriaethau gan y Panel Dyfarnu Lleoedd a Ariennir. Mae'r panel yn cynnwys Cyfarwyddwr y Rhaglen, Arweinyddion llwybrau a chynrychiolydd o'r tu allan i'r Academi Arloesi.

ii. Caiff ysgoloriaethau am dalu ffïoedd yn rhannol eu dyfarnu ar sail tystiolaeth o'r budd mwyaf i'r ymgeisydd, ei gyflogwr a'r cleifion, y defnyddwyr gwasanaeth neu'r gymuned mae'n ei chefnogi, yn ogystal â'r cyfraniad at ganlyniadau Cymru Iachach[1]. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir yn y ffurflen gais gan yr ymgeisydd a'i gyflogwr. Os na chaiff yr holl ysgoloriaethau eu dyfarnu, bydd ysgoloriaethau heb eu dyfarnu yn cael eu cadw wrth gefn ar gyfer cyrsiau yn y dyfodol.

iii. Ym mhob cylch cyllido, bydd y panel yn cytuno ar ddyraniad penodol yr ysgoloriaethau yn unol â swm y cyllid sydd ar gael a lleoedd na chawsant eu dyrannu o garfannau blaenorol.

iv. Caiff ceisiadau eu sgorio fel y'i nodir yn y ffurflen gais yn Atodiad 1 isod, rhoir sgôr iddynt ym mhob sector.

v. Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn fodlon ar benderfyniad y Panel Dyfarnu Lleoedd a Ariennir gysylltu â Dr Roderick Thomas, Cyfarwyddwr y Rhaglen yn y lle cyntaf.

vi. Bydd adroddiad ar sut dyrannwyd y cyllid yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Penderfynu a Chymeradwyo'r Academi Dysgu Dwys.

## 4. CYMHWYSTRA

i. Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r gofynion mynediad i gael lle ar y rhaglen MSc mewn Rheoli Uwch (Arloesi a Thrawsnewid Iechyd).

ii. Rhaid i ymgeiswyr:
- fod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu i'r GIG, ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru ar hyn o bryd, a
- darparu cadarnhad o gefnogaeth wedi'i lofnodi gan eu cyflogwr gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir gan y Brifysgol a
- bod yn ddinesydd y DU neu feddu ar 'statws preswylydd sefydlog' (sy'n golygu nad oes cyfyngiadau ar hyd y cyfnod y caiff ymgeiswyr aros yn y DU); a
- rhaid eu bod wedi byw yn y DU a'r Ynysoedd am dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs.

iii. Rhaid i ymgeiswyr fod yn ymgeisio am le ar yr MSc Rheoli Uwch (Arloesi a Thrawsnewid Iechyd) yn dechrau ym mlwyddyn academaidd 2024-25.

---

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/in-brief-a-healthier-wales-our-plan-for-health-and-socialcare.pdf

iv. Mae ysgoloriaethau i dalu ffioedd yn rhannol ar gael i ymgeiswyr sy'n cyflwyno cais am raglenni astudio amser llawn a rhan-amser, yn amodol ar yr holl feini prawf cymhwyso eraill a restrir uchod.

v. Nid yw'r Ysgoloriaethau'n destun prawf modd, h.y. ni fyddant yn dibynnu ar incwm teulu ymgeisydd.

vi. Nid ystyrir myfyrwyr sydd eisoes â chyllid llawn neu rannol. .

## 5. AMODAU A THELERAU:

i. Mae ysgoloriaeth i dalu ffioedd dysgu yn rhannol yn cyfrannu at y ffïoedd dysgu ar y gyfradd sy'n berthnasol yn ystod y cyfnod y mae'r myfyriwr yn astudio am y radd MSc. Bydd ysgoloriaethau ymgeiswyr rhan-amser yn cael eu cyfraddio i dalu eu ffioedd dros gyfnod y rhaglen.

ii. Dylai ymgeiswyr gyflwyno cais am ysgoloriaeth i dalu ffioedd yn rhannol ar yr un pryd ag ymgeisio am le ar y rhaglen. Dylai ymgeiswyr atodi eu cais am ysgoloriaeth (gweler Atodiad 1 isod) i'w cais am y rhaglen.

iii. Defnyddir yr Ysgoloriaeth i dalu costau ffioedd dysgu ac ni chaiff ymgeiswyr gael yr ysgoloriaeth yn uniongyrchol.

iv. Ni ellir gohirio ysgoloriaethau. Mae'n rhaid i ymgeiswyr dderbyn yr ysgoloriaeth erbyn y dyddiad a nodwyd yn y llythyr dyfarnu.

v. Bydd ysgoloriaeth sy'n cael ei chynnig i ymgeisydd ond ei gwrthod cyn cofrestru yn cael ei chynnig i ymgeisydd ar y rhestr wrth gefn. Rhoir gwybod i ymgeiswyr cyn gynted â phosib ond, dylai ymgeiswyr ar y rhestr wrth gefn chwilio am ffynonellau cyllid eraill oherwydd nad oes sicrwydd y bydd Ysgoloriaeth ar gael.

vi. Anogir deiliaid Ysgoloriaeth i gymryd rhan yng ngweithgareddau marchnata a recriwtio'r Brifysgol.

vii. Un o ofynion yr Ysgoloriaeth yw eich bod yn cwblhau[2] eich astudiaethau.
Os yw myfyriwr yn tynnu'n ôl o'i radd Meistr Ôl-raddedig ar ôl i ysgoloriaeth gael ei dyfarnu iddo, caiff yr Ysgoloriaeth lawn ei chanslo a gallai'r myfyriwr fod yn atebol* am ad-dalu'n llawn unrhyw swm o'r ysgoloriaeth sydd eisoes wedi cael ei dalu tuag at ffioedd dysgu.
**Efallai na fydd myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl oherwydd rhesymau personol anorchfygol (er enghraifft, iechyd, beichiogrwydd) yn atebol am ad-dalu'r Ysgoloriaeth yn llawn.*

viii. Os ystyrir bod angen i ddeiliad Ysgoloriaeth ohirio ei astudiaethau, caiff yr Ysgoloriaeth ei haddasu ar sail pro- rata hyd at ddechrau'r absenoldeb, a chaiff gweddill yr ysgoloriaeth ei gadw yng nghyfrif y Brifysgol a'i gario ymlaen i'r flwyddyn pan fydd y myfyriwr yn ail-gydio yn ei astudiaethau.

## 6. Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

[2] Mae cwblhau yn y cyd-destun hwn yn golygu bod yn bresennol am y cwrs cyfan a chwblhau'r asesiadau gofynnol.

**i.** Os ydych yn cyflwyno cais am ysgoloriaeth i astudio ym Mhrifysgol Abertawe, bydd yn ofynnol i Brifysgol Abertawe gasglu, storio, defnyddio a phrosesu gwybodaeth amdanoch chi mewn ffyrdd eraill, at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio ac am resymau y tybir eu bod yn angenrheidiol er mwyn cymryd camau cyn ymrwymo i gytundeb dan gontract gyda'r Brifysgol.

## 7. CYFLE CYFARTAL

i. Sefydliad cyfle cyfartal yw Prifysgol Abertawe. Felly byddwn yn rhoi proses ymgeisio dienw ar waith, lle na fydd y panel yn gweld manylion personol.

**ii.** Byddwn yn cynnal ymarferion monitro cyfle cyfartal yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer cyfle cyfartal.

## ATODIAD 1 : FFURFLEN GAIS

**Cyfle Cyfartal**
Sefydliad cyfle cyfartal yw Prifysgol Abertawe. O ganlyniad, byddwn yn gweithredu proses cyflwyno cais ddienw, lle na fydd manylion personol yn cael eu hystyried wrth ddyfarnu lleoedd wedi'u hariannu'n rhannol. Felly, a wnewch chi sicrhau eich bod yn cynnwys manylion personol yn y lleoedd a nodir ar y ffurflen yn unig.

**Rhan 1: Gwybodaeth Bersonol Adnabyddadwy [Mae'r adran hon at ddibenion gweinyddol ac ni fydd ar gael i'r panel penderfynu]**

| | |
|---|---|
| ENW | |
| RHIF YMGEISIO PRIFYSGOL ABERTAWE | |
| DYDDIAD GENI | |
| CYFEIRIAD E-BOST: | |

Anfonwch gopi o'r ffurflen hon i IHSCAcademy@abertawe.ac.uk. ***Gall methu gwneud hyn olygu na fydd eich cais yn cael ei ystyried.***

**Rhan 2: Sut bydd y cwrs o fudd i chi, eich sefydliad a'r cleifion / defnyddwyr gwasanaeth yr ydych yn gweithio gyda nhw. (Peidiwch â rhoi gwybodaeth bersonol y gellir ei defnyddio i'ch adnabod os yw'n bosib).**
**Darllenwch y nodiadau arweiniol.**

| **Dywedwch wrthym am y sector, y cyflogwr a'r lleoliad yr ydych yn gweithio ynddo, a sut mae eich rôl bresennol yn cyd-fynd â deilliannau dysgu'r cwrs hwn (Uchafswm o 300 gair - 5 pwynt i'w dyfarnu)** |
|---|
| Rhoddir y marciau uchaf am ddatganiadau sy'n dangos yn glir eu bod yn cydweddu â'r rhan fwyaf o'r amcanion dysgu i'r graddau y maent yn berthnasol i https://www.swansea.ac.uk/postgraduate/taught/som/business-management/msc-advanced-health-care-management-value-based/ *rôl yr unigolyn.* |
| **Sut bydd eich dysgu'n cyfrannu at gyflawni polisi iechyd a gofal cymdeithasol Cymru sy'n berthnasol i Arloesi mewn Iechyd a Gofal? (300 o eiriau ar y mwyaf - 5 pwynt i'w dyfarnu)** |
| *Rhoddir y marciau uchaf am ddatganiadau sy'n dangos bod ymgeiswyr yn deall sut bydd eu dysgu'n arwain at ymarfer gwell, sy'n cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru* |
| **Pa effaith bydd y cwrs hwn yn ei chael ar eich sefydliad a defnyddwyr gwasanaeth? (Uchafswm o 500 o eiriau - 5 pwynt i'w dyfarnu)** |
| *Gallai hyn gynnwys y buddion a ragwelir i wasanaethau, staff, defnyddwyr gwasanaeth neu brosesau gwell.*<br>*Rhoddir y marciau uchaf am ddatganiadau sy'n dangos dealltwriaeth o'ch gallu eich hun i ddatblygu a gweithredu arloesi a thrawsnewid yn ei sefydliad.*<br>*Bydd cyfeirio at ymchwil neu lenyddiaeth berthnasol yn y sector/proffesiwn yn helpu i ddangos y lefel ddisgwyliedig o baratoi ar gyfer y rhaglen hon* |

## RHAN 3: DATGANIAD Y CYFLOGWR

**I'w gwblhau gan reolwr llinell yr ymgeisydd neu uwch-reolwr perthnasol.**

| **Trafodwch sut bydd eich sefydliad yn elwa o gyfranogiad y dysgwr yn y rhaglen a'r prosiect yn seiliedig ar y gweithle a pha effaith rydych yn disgwyl i hyn ei chreu. (500 o eiriau ar y mwyaf - 5 pwynt i'w dyfarnu)** |
|---|
| *Gall hyn gynnwys cyfeiriadau at 'Cymru Iachach' a Strategaeth Arloesi Cymru yn ogystal â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru sy'n benodol i sector yr ymgeisydd.*<br>*Rhoddir y marciau uchaf am ddatganiadau sy'n dangos:*<br><br>• *Eu bod yn cyd-fynd yn amlwg â pholisi Llywodraeth Cymru.*<br>• *Dealltwriaeth o allu'r ymgeisydd i ddatblygu a gweithredu newidiadau yn ei sefydliad.*<br>• *Y buddion a ragwelir i wasanaethau, staff, defnyddwyr gwasanaeth neu brosesau gwell.*<br>• *Dealltwriaeth bod arloesi a thrawsnewid yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell o fewn yr adnoddau sydd ar gael.* |
| **Ticiwch y blychau isod i gadarnhau y cefnogir yr ymgeisydd, os bydd yn llwyddiannus, i gael amser digonol wedi'i ddiogelu er mwyn cwblhau'r rhaglen a'r prosiect ac ymgymryd â'r dysgu hunangyfeiriedig sy'n ofynnol.** |
| ☐ Gallaf gadarnhau y bydd gan yr ymgeisydd amser wedi'i ddiogelu (o leiaf 7 awr) bob wythnos i astudio.<br>☐ Gallaf gadarnhau fy mod yn deall y bydd y cyfnod 7 awr hwnnw'n cynnwys gofyniad i ymgymryd â'r canlynol:<br>◻ Seminarau byw wythnosol a fydd yn para 2 awr ar ddydd Gwener (rhithwir)<br>◻ Un gweithdy wyneb yn wyneb diwrnod llawn ar gyfer pob modiwl 15 credyd<br>◻ Darllen ymlaen llaw a pharatoi ar gyfer cyflwyniad<br><br>*(Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rydych chi'n cadarnhau eich bod yn cefnogi amser wedi'i ddiogelu'r ymgeisydd i gwblhau'r rhaglen fel y'i nodir uchod)*<br><br>*Defnyddiwch y lle i gynnwys unrhyw ddatganiadau eraill sy'n berthnasol i'r gefnogaeth a gynigir gan eich sefydliad:* |

| |
|---|
| |
| **Enw cynrychiolydd y sefydliad**<br>**Teitl y Rôl:**<br>**Dyddiad:** |
| Llofnodwyd gan: ______________________________________________<br>ar ran<br><br>Sefydliad: ________________________________________ |